



FARMING
connect
cyswllt
FFERMIO

08456 000 813

Symud tuag at ddiogelu dyfodol menter cig eidion

Fferm Newton, Scethrog, Brecon, Powys, LD3 7YG 15/11/2018

Siaradwyr

Rhidian Jones, 5Agri

rjlivestocksystems@btinternet.com / 07889182364

Marc Jones, Fferm Trefnant Hall (Ymgynghorydd Busnes Fferm ADAS)

marc.jones@adas.co.uk / 07814617814



www.llyw.cymru/cyswlltffermio

Ffeithiau Fferm Newton

Tir

- Mae Newton Farm yn ymestyn dros 650 erw, gyda 450 erw yn berchen iddynt a 200 erw yn cael ei rentu, o fewn Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog.
- Mae'r fferm yn cynnwys 80 erw o goetir a thir prysg.
- Mae'r fferm yn rhan o Glastir Uwch ers 2015.

Da Byw

Biff

- Yn 2012, cafodd buchod Stabiliser eu cyflwyno i'r fuches. Ar hyn o bryd, mae 90 o fuchod magu ar y fferm a dau darw Stabiliser. Mae AI wedi cael ei ddefnyddio hefyd er mwyn gwella geneteg.
- Mae'r epilion yn cael eu gwerthu ym Marchnad Aberhonddu fel gwartheg stôr.

Defaid

- Cedwir 1,050 o famogiaid, gyda 260 o wŷn benyw lle cafodd 100 ohonynt eu troi at yr hwrdd hydref diwethaf.
- Suffolk croes Miwl yw mwyafrif y ddiadell gyda 100 o wŷn benyw Aberfield croes.
- Defnyddir cymysgedd o eneteg Innovis, gan gynnwys Abermax ac Aberfield, a rhai hyrddod Charollais.
- Ar ddechrau mis Medi, defnyddir hyrddod paratoadol, cyn i'r hyrddod gael eu troi yn ystod wythnos olaf y mis. Caiff mamogiaid eu sganio yn nechrau Rhagfyr, ac yna eu cadw dan doa'u cneifio cyn y Nadolig.
- Canran sganio'r brif ddiadell yn 2016 oedd 192% a'r hesbinod / wŷn benyw yn 175%.
- Ar ôl dod ar defaid i mewn, mae'r defaid yn bwydo eu hunain ar silwair clamp mewn dau ran, gyda bariau bwydo ar draws y pedwar arwyneb sy'n cael eu symud 10cm bob dydd.
- Dim ond silwair sy'n cael ei roi i famogiaid sy'n cario oen unigol, ond bwydir dwysfwyd i famogiaid sy'n cario tri bedair wythnos cyn wŷna ac i famogiaid sy'n cario efeilliaid bythefnos cynt.

- Mae 90% o'r mamogiaid yn wyna rhwng Chwefror 18fed a Mawrth y 5ed.
- Erbyn diwedd Mehefin, mae 800 o wŷn yn cael eu gwerthu ar bwysau cyfartalog o 19.5kg.

Cnydau

- Tyfir 55 erw o gnydau grawn ar y fferm.
- Mae 250 erw o laswelltir wedi cael ei adnewyddu gyda meillion a glaswellt, gan arwain at well porfa, er mwyn gorffen wŷn oddi ar laswellt yn gynt.
- Caiff meillion coch ei gynnwys yng nghynhyrchiant silwair fel ffynhonnell o brotin o ansawdd uchel a dyfir gartref er mwyn lleihau costau gorffen wŷn ar ôl diddyfnu.
- Cafodd cnwd gorchudd bywyd gwyllt ei blannu llynedd ac wedi cael ei ddefnyddio gan Grŵp Modrwyo Adar Llangorse i fonitro mathau a niferoedd adar.
- Yn 2013, cafodd llyriad, cymysgedd llysieuol a phorfeydd glaswellt arferol eu tyfu ar y fferm fel rhan o brosiect Cronfa Arloesedd Ffermwyr Cyswllt Ffermio i orffen wŷn. Mae perfformiad a hirhoedledd y cnydau yn parhau i gael eu monitro.

Gwybodaeth ychwanegol

- Mae bwthyn gwyliau hunan-ddarpar yn rhan o'r busnes.
- Caiff plant ysgolion cynradd eu croesawu i'r fferm yn flynyddol.
- Mae cynlluniau amgylcheddol wedi gwarchod caeau gwair gweirgloddiau a darparu lleoliadau nythu i gornchwiglod.
- Mae 15km o wrychoedd wedi eu creu a'u hadfer, ac felly'n darparu coridorau ar gyfer bywyd gwyllt.
- Gweithiwyd gyda Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Vincent Vincent Wildlife Trust i adfer gwrychoedd oedd yn rhan o lwybrau hedfan yr ystlum pedol leiaf.
- Ar hyn o bryd maent yn gweithio gyda CADW ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog i adfer safle bryngaer o'r Oes Haearn ar y fferm. Mae deg o wartheg Highland wedi eu prynu fel porwyr cadwriaethol.

Rhoi Da Byw i Bori ar Fetys Porthiant

Pam Betys Porthiant?

Mae betys porthiant yn gnwd porthiant cynhyrchiol iawn ac yn cynnwys llawer o egni, a all greu cyfraddau tyfu da a chyfraddau stocio uchel iawn ar gostau isel iawn. Mewn gwirionedd gall y cnwd gynyddu allbwn gan ostwng costau porthi stoc.

Cynnyrch a Chostau

Gall betys porthiant gynhyrchu rhwng 15 a 30 tonnell o gynnwys sych i bob hectar gan ddibynnu ar y safle tyfu a'r mewnbwn. Mae hyn yn cymharu'n dda iawn â swêj a chêl lle mae'r cynnyrch disgwylidig tua 6 i 10 tonnell o gynnwys sych i bob hectar.

Mae costau'r cnwd yn ddrud ar tua £1,100 i bob hectar, fel y dangosir yn nhabl 1 isod. Ond, ar sail ceiniogau i bob kilogram o gynnwys sych, mae'r cnwd yn rhad iawn a gellir ei dyfu ar ystod cost o 3.75 i 7.5 ceiniog i bob kg o gynnwys sych gan ddibynnu ar gynnyrch (Fel y dangosir yn nhabl 2). Mae hyn yn cymharu'n dda iawn â glaswellt ar 6c i bob kg o gynnwys sych, silwair ar 12c i bob kg o gynnwys sych a dwysfwyd ar 25c am bob kg o gynnwys sych.

Tabl – 1 Costau'r Cnwd i bob Hectar

Eitem	Cost/ha (£)
Hadau	188
Calch	75
Gwrtaith	198
Chwistrellu	160
Contractio	255
Rhent	250
Cyfanswm	£1,126

Tabl 2 – Cynnyrch Cynnwys Sych a Chost am bob kg o Gynnwys Sych

Cynnyrch Cynnwys Sych	Ceiniogau i bob kg/dm
30 tonnell/dm/ha	3.75
25 tonnell/dm/ha	4.50
20 tonnell/dm/ha	5.63
15 tonnell/dm/ha	7.51

Dewis Safle

Mae dewis safle yn bwysig iawn wrth roi da byw i bori ar fetys porthiant. Gan fod llawer mwy o gynnyrch o'r cnwd gyda betys porthiant, rhaid i'r stoc symud ar draws y cae yn llawer arafach a byddant yn potsio llawer mwy ar y cae. Felly mae'n bwysig dewis safle sy'n draenio yn dda.

Mae'n bwysig hefyd sicrhau nad yw'r cae yn rhy serth i atal dŵr rhag rhedeg oddi ar y cae. Mae'n bwysig hefyd bod y cae yn ddigon pell oddi wrth gyrsiau dŵr neu fod lleiniau yn cael eu gadael yn glir o stoc hyd lannau unrhyw gyrsiau dŵr.

Yn ddelfrydol dylid cael nifer o giatau er mwyn gallu symud stoc i mewn ac allan yn ystod cyfnodau o dywydd drwg a dylai'r holl giatau a mannau dyfrio gael eu targedu gyda cherrig/deunydd caled.

Sefydlu'r Cnwd a Dewis Pa Fath

Mae betys porthiant yn gnwd mwy cymhleth i'w dyfu na chnydau porthiant eraill a bydd angen peiriannau arbenigol. Bydd angen aredig i ddechrau gan greu gwely mân i'r hadau. Bydd ar y cnwd angen 110kg/ha o N, 60 kg/ha o P a 340 kg/ha o K ar fynegai SNS 2 a Mynegai P a K 2 (Gweler RB209 am ragor o fanylion). Bydd ar y cnwd hefyd angen pH o 6.5 a bydd angen chwalu 200kg/ha o sodiwm. Yna bydd angen dril i hau'r hadau, ac yna chwistrellu chwynladdwr cyn i'r cnwd ymddangos ac yna chwistrellu chwynladdwr ar gyfer y cyfnod ar ôl i'r cnwd ymddangos ddwywaith fel arfer. Fe all y cnwd hefyd fod angen un neu ddau chwistrelliad o ffwngladdwr. Rhaid cofio y bydd raid i'r chwistrell fod yn un ar bwysedd uchel ond cyfaint isel.

Mae dewis y math cywir yn bwysig iawn ar gyfer betys porthiant i'w pori ac mae'r system yn gofyn am fath o fetys porthi sy'n isel mewn cynnwys sych sy'n tyfu 50% neu fwy allan o'r pridd. Mae'r mathau sy'n cynnwys mwy o gynnwys sych yn tyfu dan y pridd, yn anos eu bwyta ac yn addas i'w codi.

Mae'r gyfradd o hadau hefyd yn bwysig, gyda chyfradd is yn ofynnol ar gyfer pori gan y bydd hyn yn gwneud i'r llysieuon dyfu ymhellach allan o'r pridd. Argymhellir cyfraddau hadau o 36,000 i 40,000 yr acer ar gyfer eu pori mewn cymhariaeth â 45,000 yr acer a mwy ar gyfer eu codi.

Cyllidebu Porthiant

Bydd llunio cyllideb borthiant ar gyfer y cnwd yn bwysig iawn, gan y bydd angen i chi borthi'r stoc am gyfnod penodol yn ystod y gaeaf ar sail y cynnyrch a amcangyfrifir ar ddechrau'r flwyddyn. Yna bydd angen i chi edrych ar ychwanegu silwair, gwair a gwellt at y cnwd er mwyn bodloni anghenion y gwartheg am frasfwyd. Fel rheol gyffredinol gallwch dybio bod $\frac{3}{4}$ y diet yn dod o'r betys porthiant a'i $\frac{1}{4}$ yn dod o'r silwair ar gyfer buwch sugno. Er enghraifft os oes ar fuwch sych angen 12kg o gynnwys sych byddai hynny'n golygu y byddai 3kg yn dod o'r silwair ac 8kg yn dod o'r betys porthiant. Mae'r enghraifft isod yn dangos y cyfrifiad ar gyfer 100 o fuchod magu sych mewn gaeaf 5 mis:

Betys Porthiant

150 diwrnod \times 8kg o fetys porthiant = 1,200kg dm o fetys porthiant

1,200kg dm o fetys porthiant \times 100 buwch = 120,000kg o gynnwys sych
(betys porthiant am 150 diwrnod)

O dybio cnwd 20,000kg/ha, bydd angen 6 hectar am y 5 mis.

Silwair

150 diwrnod \times 3kg o silwair = 450kg dm o silwair

450kg dm o silwair \times 100 buwch = 45,000kg o silwair (silwair am 150 diwrnod)

Wrth dybio bod byrnau yn pwyso 600kg yr un a bod 50% ohonynt yn gynnwys sych (300kg dm), bydd angen 150 o fynau ar gyfer y gaeaf neu 1 o'r byrnau bob dydd.

Paratoi'r cae at y gaeaf

Ar sail y cyfrifiad uchod mae angen 120,000kg o fetys porthiant ar gyfer y gaeaf 150 diwrnod. Os rhennir hyn â 150 diwrnod = 800kg y dydd.

Ar sail cynnyrch o 20,000kg o gynnwys sych i bob hectar. Os rhennir y gofyn bob dydd wrth y cynnyrch i bob hectar bydd yn rhoi'r gofyn dyddiol i chi neu yn yr achos hwn: $800 / 20,000 = 0.04$ hectar neu 400 metr sgwâr y dydd.

Felly mae angen darn o dir 100 metr x 4 metr y dydd ag un o'r byrnau mawr bob dydd.

Yn y llun isod gwelir gwartheg Stabaliser yn pori yn ystod gaeaf 2017 a Richard yn symud y ffens drydan ymlaen, gyda'r byrnau mawr eisoes wedi eu rhoi yn y cae:



Trosglwyddo

Mae'r cyfnod trosglwyddo i'r cnwd yn allweddol i wartheg gan y gallant farw o asidosis os na fyddant yn cael eu haddasu yn araf ar y cnwd. Nid oes angen cyfnod trosglwyddo i ddefaid o ran asidosis ond dylent gael eu haddasu dros gyfnod o 4-5 diwrnod.

Dylai'r trosglwyddiad llawn ddigwydd dros dair wythnos ond bydd y cyfnod cychwynnol yn cymryd pythefnos. Ar y dechrau gall y gwartheg fod yn gyndyn o fwyta'r cnwd ac efallai y bydd angen dal y silwair yn ôl i wneud iddynt fod yn llwglyd. Ar ôl iddynt gael blas ar y cnwd bydd angen sicrhau nad ydyn nhw'n gwledda yn ormodol ar y cnwd a bydd angen eu dal yn ôl. Dangosir cyfnod trosglwyddo delfrydol isod:

Trosglwyddo:

Diwrnod 1: Anelwch at ddyrannu 1 i 2 kg DM o Fetys Porthiant a 10 kg DM o Silwair

Cynyddwch y Betys Porthiant o 1 kg bob yn ail ddiwrnod

Diwrnod 14: 8kg DM o Fetys Porthiant a 2-4 kg DM o Silwair. Cadwch at hyn am wythnos

Diwrnod 21: Betys Porthiant Ad Lib a 2 kg DM o Silwair

Rheoli pan fydd y tywydd yn wael

Yn ystod cyfnod o dywydd difrifol mae'n hanfodol bod yr amser rheoli yn cael ei gynyddu i helpu i gynnal lles y gwartheg i gychwyn ond yn ail i osgoi difrod i'r pridd a'i weld yn rhedeg.

- Dylid defnyddio ffensys tu ôl i'r stoc i atal y gwartheg rhag cerdded yn ôl a blaen dros yr un pridd gan achosi potsio eithafol.
- Dylid defnyddio cafnau dŵr dros dro a'u symud gyda'r gwartheg i'w hatal rhag cerdded a photsio gormod
- Dylid gosod byrnau yn y cae cyn y gaeaf fel na fydd raid i beiriannau fynd iddo ac achosi mwy o ddifrod i'r pridd
- Dylid gosod pad o wellt neu fan i'r gwartheg gilio iddo os bydd yr amodau yn gwaethgu er mwyn i'r gwartheg orwedd, neu efallai y bydd raid eu rhoi dan do am gyfnod byr



Gwella perfformiad buchesi sugno

Nid yw fyth yn hawdd creu elw o fuchod sugno ond mae sawl maes y gellir eu gwella fel arfer. Mae'r rhain yn cynnwys gwella ffrwythlondeb y fuches, cyfradd dyfu'r lloi a gwneud y defnydd gorau o adnoddau.

Meincnodi perfformiad y fuches

Mae cyfrifo perfformiad corfforol ac ariannol eich buches yn fan cychwyn da fel bod unrhyw ddiffygion yn cael eu canfod, ac y gallwch lunio cynllun gweithredu i gywiro unrhyw broblemau. Mae'n ddoeth cynnwys eich milfeddyg a'ch maethegwr yn y broses hon yn ogystal ag edrych ar feincnodau'r diwydiant fel yr Arolwg Cyfrifon Fferm ac ymuno â grŵp o ffermwyr o'r un meddylfryd. Mae adnodd Mesur i Reoli Cyswllt Ffermio yn ffordd ragorol o gychwyn y broses feincnodi ac yn rhan o hyn mae nifer o grwpiau buched sugno y gallwch ymuno â hwy.

Targedau i fuchesi sugno

Dynodwyd bod meincnodau diwydiant ar gyfer perfformiad corfforol y gellir eu cyflawni yn y rhan fwyaf o flynyddoedd. Ond, mae'n aml yn anodd cyflawni perfformiad cyson o flwyddyn i flwyddyn oherwydd digwyddiadau tywydd eithafol, problemau iechyd neu broblemau eraill a all gael effaith niweidiol ar berfformiad. Ond, gyda chynllun cadarn a sylw i fanylion ar y materion a amlinellir isod mae'r gobaith o gyflawni'r targedau hyn yn cynyddu yn gyson.

Eitem	Targed	Diffiniad
Buchod gwag	< 5%	188
Buchod yn lloia	95%	Buchod a heffrod at y tarw
Lloia yn y 3 wythnos cyntaf	65%	O'r buchod yn lloia (dechrau lloia 285 diwrnod ar ôl i'r teirw fynd i mewn)
Cyfnod gyda'r tarw	9 wythnos	Buchod
	6 wythnos	Heffrod
Lloi marw –yn ystod beichiogrwydd	< 2%	
Lloi marw – Geni hyd Ddiddyfnu	<3%	
Lloi a fagwyd	94%	O fuchod/heffrod aeth at y tarw
Lloia anodd	< 5%	Angen cymorth, nid triniaeth cesaraidd

Problemau Ffrwythlondeb y Fuches

Dylai taclio iechyd y fuches gyda'ch milfeddyg fod yn flaenoriaeth. Gall hyn gynnwys edrych ar gofnodion unrhyw broblemau yn y gorffennol, profi gwaed, ymuno â chynlluniau iechyd a mabwysiadu polisi brechu rhag rhai afiechydon.

Dylid osgoi anhawster wrth loia trwy ddewis y teirw cywir ar gyfer y gwartheg sydd gennych, defnyddio Gwerthoedd Bridio Tybiedig ar gyfer rhwyddineb lloia a hyd y beichiogrwydd wrth brynu teirw. Mae rheoli cyflwr corff y fuwch hefyd yn chwarae rhan yn hyn. Dangosodd gwaith ymchwil bod buchod sy'n rhy dew wrth loia angen mwy o help wrth loia ac yna mae'r gyfradd o loi sy'n marw yn uwch.

Bydd cael y buchod i loia yn agos at ei gilydd yn ddangosydd rhagorol o ffrwythlondeb cyffredinol y fuches, mae'n rhoi mwy o ddewis o heffrod wedi eu geni yn ifanc i fod yn stoc cyfnewid ac mae'n golygu bod y llafur angenrheidiol ar amser lloia wedi ei grynhoi i gyfnod llai fel y gellir rhoi mwy o sylw i'r dasg. Mae sawl agwedd o berfformiad y fuches yn cyfrannu at gyflawni cyfnod lloia tynn, ond disgyblaeth o ran y dyddiadau mynd at y tarw yw un o'r prif broblemau. Ni ddylai buches o fuchod ffrwythlon orfod bod gyda'r tarw am fwy na 9 wythnos a'r heffrod yn cael 6 wythnos. Dylai unrhyw fuchod neu heffrod nad ydynt yn cyfloi yn y cyfnod hwn gael eu hystyried yn rhai â ffrwythlondeb diffygiol a'u marcio i gael gwared ohonynt.

Gwnewch yn siŵr bod y teirw yn ffit ar gyfer eu gwaith ac nad ydynt yn rhy dew ac nad ydynt yn cael eu defnyddio yn syth ar ôl eu prynu pan allant fod wedi cael eu porthi yn barod at yr arwerthiant. Mae'n ddoeth hefyd profi semen eich tarw yn flynyddol o leiaf 2 fis cyn y mae ei angen fel y gellir dynodi unrhyw deirw sy'n ddiffygiol o ran ffrwythlondeb a rhoi cyfle i chwilio am deirw yn eu lle. O ran gallu'r teirw, mae'n ddoeth rhoi dim ond tua 20 buwch i deirw ifanc yn eu tymor cyntaf gyda theirw mwy profiadol yn cael 40-50 o fuchod (os bydd eu semen wedi ei brofi). Os nad yw'r teirw yn ddigonol, ystyriwch ddefnyddio tarw potel fel dewis i gael geneteg o safon uchel.

Mae'n debyg mai rheoli cyflwr corff y fuwch trwy'r flwyddyn yw'r agwedd fwyaf allweddol i'w chael yn iawn ac yn aml bydd problemau eraill yn cywiro eu hunain os yw'r buchod yn y cyflwr corff cywir. Yn gyffredinol, i fuchod sy'n lloia yn y gwanwyn, mae hyn yn golygu gwella cyflwr hyd at a thu hwnt i fod gyda'r tarw ar laswellt i gael cyfraddau cyfebu da, yna bydd y lloia yn cael eu diddyfnu yn yr hydref gyda'r buchod mewn cyflwr da (dros sgôr cyflwr corff o 3) y gellir ei ddefnyddio wedyn dros y gaeaf, gan arbed ar borthiant gaeaf, ac yna lloia ar sgôr o 2.5 i leihau problemau wrth loia.

Rheoli heffrod

Beth bynnag yw eich polisi cyfnewid mae'n bwysig i chi roi tarw i'ch heffrod iddynt loaia yn gynnar yn y cyfnod lloia. Mae llawer o ffermwyr yn rhoi tarw i'r heffrod cyn y brif fuches ond ni ddylai fod angen gwneud hyn mewn buches ffrwythlon sy'n lloia mewn cyfnod tynn gan y bydd digon o heffrod wedi eu geni yn gynnar i ddewis o'u plith. Gall mwy o heffrod nag sydd angen gael eu rhoi gyda'r tarw am y chwe wythnos a gellir gwerthu unrhyw rai na fydd yn cyfebu. Os ydych yn bridio eich stoc cyfnewid eich hun yna bydd defnyddio teirw gyda gwerth bridio uchel am rwyddineb lloia yn y fam, llaeth, pwysau yn 200 diwrnod a chylchedd ceillgydol y dangoswyd bod cysylltiad uniongyrchol rhwng ffrwythlondeb merched y teirw ag o a'r oedran pan fyddant yn cyrraedd oed aeddfedrwydd; y cyfan yn helpu i fagu gwell gwartheg sugno.

Gellir llwyddo i loaia yn ddwy oed a dim ond cyrraedd cyfraddau tyfu cymedrol sydd ei angen. Ond, mae'n bwysig gofalu am yr heffrod yma gan eu bod yn dal i dyfu, felly rhowch darw sy'n lloia yn haws iddynt, rheolwch nhw mewn grŵp ar wahân gyda'r maethiad cywir a rhowch driniaeth fwy ffafriol iddynt ar ôl lloia, gan gynnwys hyd at eu hail lo. Mewn buches fach gall rhai o'r ffactorau hyn fod yn anos eu cyflawni felly efallai bod defnyddio tarw potel yn ddewis posibl.



Cyfraddau tyfu lloi a lleihau'r ataliad wrth ddiddyfnu

Mae cyrraedd pwysau da wrth ddiddyfnu a sicrhau bod y lloi yn dal i dyfu ar ôl diddyfnu hefyd yn chwarae rôl bwysig o ran proffidioldeb y fuches. Mae defnyddio teirw gyda gwerthoedd bridio tybiedig ar gyfer pwysau yn 200 diwrnod, rheoli buchod o ran cyflwr eu corff, rheoli glaswelltir yn dda, rhoi porthiant ychwanegol a gadael lloi gwryw yn gyflawn i gyd yn offer sydd ar gael i'ch helpu i gael cyfraddau tyfu dros 1.2kg/hd/dydd tra byddant gyda'u mamau.

Wrth i'r tymor fynd yn ei flaen gellir cyflwyno bwyd ychwanegol a fydd yn helpu i ddatblygu a chyfarwyddo'r rwmen, lleihau'r ataliad wrth ddiddyfnu a lleihau'r posibilrwydd y bydd niwmonia ac afiechydion eraill yn digwydd. Yn gyffredinol mae rhoi porthiant ategol yn gost effeithiol gan y bydd y Gyfradd Trosi Porthiant yn dda mewn lloi ifanc ac y byddant yn ychwanegu mwy o bwysau fel arfer. Mae diddyfnu yn raddol yn arfer cyffredin erbyn hyn, wedi ei ddylunio eto i osgoi straen wrth ddiddyfnu. Ar ôl eu diddyfnu dylai'r lloi gael eu rhoi ar ddieta da o borthiant o safon uchel a dwysfwd 16% i gynnal eu cyfraddau tyfu.

Effeithlonrwydd y fuwch

Mae effeithlonrwydd y fuwch, sy'n cael ei fynegi fel canran o bwysau'r fuwch, yn ddull mesur newydd sy'n ystyried ffrwythlondeb y fuches a chyfraddau tyfu lloi. Mae'n cael ei gyfrifo trwy rannu cyfanswm pwysau y llo wedi ei ddiddyfnu (wedi ei addasu i 200 diwrnod) gyda phwysau'r buchod a aeth at y tarw $\times 100$ (gweler yr enghraifft isod). Mae ffigwr uchel yn well na ffigwr isel gyda tharged o 50% yn bosibl gyda buchod bach i ganolig, ffrwythlon, llaethog, yn magu % uchel o loi a'u troi at y tarw gyda chyfraddau tyfu da. Er mai dull o fesur y fuches yw hwn, ac y dylai ystyried buchod anffrwythlon, marwolaethau lloi ac ati, gellir defnyddio'r dull hwn i werthuso effeithlonrwydd buchod unigol mewn buches.

Enghraifft gyda buches 100 buwch, buchod yn pwyso 650kg, 90 llo wedi eu magu ar 270kg o bwysau wedi ei addasu.

Cyfanswm pwysau'r lloi a fagwyd $90 \times 270 = 24,300\text{kg}$

Pwysau'r buchod aeth at y tarw $100 \times 650 = 65,000\text{kg} \times 100 = 37.4\%$

Gwneud defnydd da o adnoddau

Dyma pan fydd y system gyfan yn dod at ei gilydd i gyflawni deilliant llwyddiannus. Daw materion fel cael y math cywir o fuwch ar gyfer y fferm a'r porthiant sydd ar gael, lloia ar yr amser cywir i gyd-fynd â chynhyrchu porfa a'r llafur sydd ar gael ac a oes posibl gostwng costau gaeafu trwy dyfu cnydau porthiant oll i'r darlun. Mae pob fferm yn wahanol ac weithiau mae'n gofyn cael pâr arall o lygaid i weld y dewisiadau sydd gennych. Dyna pryd y mae ymuno â grŵp trafod neu edrych ar systemau eraill ar ffermydd eraill yn ddefnyddiol iawn.

Perfformiad buches Newton

- Mae'r mynegai lloia wedi gostwng o bron i 400 diwrnod yn 2013 (cyn cyflwyno gwartheg Stabiliser) i tua 365 diwrnod yn 2017 a 2018. Dangosydd da o gyfnod lloia mwy tynn a ffrwythlondeb y fuches.
- Yn 2018 roedd 73% o'r buchod wedi lloia yn y tair wythnos cyntaf gyda 96% mewn chwe wythnos.
- Roedd y cyfnod gyda'r tarw yn 2018 yn 11 wythnos i fuchod a 9 wythnos i heffrod.
- Lloi heffrod 2018 wedi eu diddyfnu ar 256kg (46% o bwysau'r buchod aeddfed).
- Lloi heffrod 2017 wedi eu diddyfnu ar 253kg (40% o bwysau'r buchod aeddfed).
- Lloi gwryw (cyflawn) 2018 wedi eu porthi ar borthiant ychwanegol wedi eu diddyfnu ar 316kg (52% o bwysau'r buchod aeddfed).
- Lloi gwryw (cyflawn) 2017 wedi eu porthi ar borthiant ychwanegol wedi eu diddyfnu ar 327kg (51% o bwysau'r buchod aeddfed).

Perfformiad Teirw Bîff

- Y teirw i gyd wedi eu gadael yn gyflawn a'u pesgi yn ddwys.
- Porthiant ategol o fis Medi ymlaen gan leihau'r ataliad wrth ddiddefnu a'u cael ar ddieta i'w pesgi.
- Wedi eu diddefnu ganol Tachwedd yn tua 8 mis oed.
- Barlys wedi ei dyfu gartref wedi ei drin â Maxammon gyda'r bwriad o gynyddu'r lefelau protein.
- Yn gyffredinol graddau R yn bennaf, rhai U (peth geneteg cyfandirol a ddefnyddiwyd yn y gorffennol yn dal i ddod trwodd efallai?).
- Pwysau carcasau o 380-385kg, yn lladd allan ar 58% (655kg LW).
- Gorffen eu pesgi yn 13-15 mis.

Mae hon yn ffordd effeithlon o gynhyrchu bîff yn arbennig pan fydd adeiladau a grawn wedi ei dyfu gartref ar gael a bod cynllun marchnata ar gael i deirw Stabiliser trwy Morrisons.





FARMING
connect
cyswllt
FFERMIO

08456 000 813

Cysylltwch â ni...

Cyswllt Ffermio

08456 000 813

www.llyw.cymru/cyswlltffermio

.....
 [Facebook.com/FarmingConnect](https://www.facebook.com/FarmingConnect)

 [Twitter: @FarmingConnect](https://twitter.com/FarmingConnect)



Crofa Amasgyddol Ewrop ar
gyfer Datblygu Gwledig
Ewrop yn 2005-2020 i helpu Ardaloedd Gwledig
European Agricultural Fund for
Rural Development
Europe Investing in Rural Areas



Llywodraeth Cymru
Welsh Government